



## Cynllun Gwirfoddoli Ieuentid Sir Gaerfyrddin

### Brittany yn cyrraedd 500 awr o wirfoddoli



**Marie Mitchell (Prif Swyddog CAVS), Brittany Alsop-Bingham a 'r Cynghorydd Cefin Campbell**

Bu CAVS, Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Cyngor Ieuentid yn gweithio mewn partneriaeth er 2007 i roi cydnabyddiaeth i bobl ifanc Sir Gaerfyrddin trwy Gynllun Cydnabod Ieuentid CAVS a Chynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm. Ers 2007, mae 92 Cynghorydd Ieuentid wedi cofrestru ar Gynllun Cydnabod Ieuentid CAVS a Chynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm. Mae Sarah Powell, Swyddog Cyfranogiad Ieuentid Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Ieuentid Sir Gaerfyrddin a Fflur Lawlor, Swyddog Gwirfoddoli CAVS wedi bod yn cydweithio a gwrando ar y bobl ifanc dros y blynyddoedd er mwyn cydnabod y gwaith, yr amser a'r ymroddiad y mae pobl ifanc Sir Gaerfyrddin yn eu rhoi i'w cymunedau lleol a phobl ifanc eraill yn y sir. Rhyngddynt maent wedi datblygu Cynllun Cydnabod Ieuentid ar gyfer pobl ifanc 11-14 oed, ac wedi pwyso ar GwirVol, y fenter Cydnabod Ieuentid i Gymru, i ostwng oed Gwirfoddolwyr y Mileniwm i 14 o 16 ac yn fwy diweddar maent wedi datblygu tystysgrif 500 awr a lanswyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Ieuentid Sir Gaerfyrddin ar ddiwedd Ebrill.

Mae'r dystysgrif ar gyfer unrhyw berson ifanc rhwng 14-25 oed sy'n cwblhau 200 awr ar gynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm ac sy'n mynd ymlaen i gyflawni 500 awr o wirfoddoli.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, roedd **Marie Mitchell, Prif Swyddog CAVS wrth ei bodd yn cyflwyno tystysgrif 500 awr gyntaf Sir Gaerfyrddin i gadeirydd Cyngor Ieuentid Sir Gaerfyrddin, Brittany Alsop-Bingham am yr holl waith, amser ac ymroddiad a roddodd i Gyngor Ieuentid Sir Gaerfyrddin dros y blynyddoedd.**

Os ydych yn defnyddio pobl ifanc yn wirfoddolwyr yn eich mudiad ac os hoffech iddynt ymuno â chynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm, mae croeso ichi gysylltu â Fflur Lawlor, Swyddog Gwirfoddoli yn CAVS ar 01267 245555 neu ebostiwch [fflur.lawlor@cavs.org.uk](mailto:fflur.lawlor@cavs.org.uk)

Marie Mitchell, Prif Swyddog CAVS



Cyfraddau Ystafelloedd Cyfarfod (9 a.m. — 5 p.m.)

	Masnachol	Grŵp Cymunedol	Grŵp Cymunedol sydd yn aelod o CAVS
Hanner Dydd	£54.00	£42.00	£31.00
Dydd Llawn	£100.00	£73.00	£55.00

Gellir hurio ystafelloedd fesul awr  
Cysylltwch â'r swyddfa am sesiynau nôs a phenwythnos

CGGSG [www.cavs.org.uk](http://www.cavs.org.uk)  
Y Mwnt Elusen Gofrestredig 1062144  
18 Heol y Frenhines Cwmni Cyfyngedig  
CAERFYRDDIN trwy Warant 3348742  
SA31 1JT  
01267 245555

**CYFARFODYDD Y DYFODOL 2018**

- ◆ **Fforwm Trydydd Sector Sir Gâr**  
Yn swyddfa CAVS: Dydd Mawrth 22/05/18
- ◆ **Grŵp Iechyd a Lles Sir Gâr**  
Yn swyddfa Menter Cwm Gwendraeth, Pontyberem: Dydd Iau 31/05/18
- ◆ **Cyfarfod Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr Sir Gâr**  
Yn swyddfa CAVS: Dydd Mawrth 10/07/18  
Dydd Mawrth 09/10/18
- ◆ **Gwahoddiad i gyfarfodydd rhwydweithio PQASSO Cymru**  
Yn swyddfa CAVS: Dydd Iau 05/07/18
- ◆ **Ffair Nawdd**  
Yn swyddfa CAVS: Dydd Iau 12/07/18  
Dydd Mawrth 11/09/18
- ◆ **Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol CAVS & Ffair Nawdd**  
Yn swyddfa CAVS: Dydd Iau 22/11/18

**Sir Gâr 50+ Carmarthenshire**

Digwyddiad Blynnyddol 50+ yn Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru  
Bydd y digwyddiad blynnyddol 50+ yn cael ei gynnal yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol Gymru ddydd Gwener, 14 Medi, 2018.  
Gwnewch yn siŵr eich bod yn **aelod** o'r fforwm 50+ er mwyn ymuno â ni ar y diwrnod. Edrychwch ar y wefan [www.carmarthenshire50.org.uk](http://www.carmarthenshire50.org.uk). Mwy o fanylion i'w dilyn.  
E-bostiwch [50+forum@sirgar.gov.uk](mailto:50+forum@sirgar.gov.uk) gydag unrhyw ymholiadau.

**RYDYM YN CROESAWU EICH ADBORTH—Os oes gennych unrhyw sylwadau ar gynnwys y cylchlythyr hwn, os hoffech cael y gwybodaeth yn Saesneg neu mewn print go fawr, neu os hoffech ddanfod cyfraniadau ar gyfer rhifyn yr Haf (erbyn Dydd Gwener, 10<sup>fed</sup> Awst, 2018), cofiwch gysylltu â'r Tîm Gweinyddol ar: [admin@cavs.org.uk](mailto:admin@cavs.org.uk) neu ffoniwch: 01267 245555**





## STRAEON GWIRFODDOLWYR—PAUL ALLCHURCH

- **Enw:** Paul (fy llysenw yw Paul Penderfynol)
- **Gyda pha fudiad wyt ti'n gwirfoddoli ac ers pryd?** Rwyf wedi gwirfoddoli gyda nifer o fudiadau dros y blynyddoedd, wedi imi gael fy symbylu yn y lle cyntaf gan Brosiect Lift a drefnwyd gan Gymunedau'n Gyntaf. Mae fy nhaith wirfoddoli wedi cynnwys lleoliadau am gyfnod byr yn ogystal â chysylltiadau hirach gyda mudiadau. Mae fy lleoliadau gwirfoddoli wedi cynnwys Bwrdd Iechyd Hywel Dda, a'r un diweddaraf oedd cyfnod o wirfoddoli gyda Commodum yng Nghaerfyrddin am flwyddyn.
- **Sut a pham wnes di ddechrau ymddiddori mewn gwirfoddoli?** Mae gennyf gyflwr iechyd hirdymor a chefais gefnogaeth gan nifer o asiantaethau i wirfoddoli er mwyn cynyddu fy hunanhyder a'm sgiliau.
- **Beth wyt ti'n ei wneud fel gwirfoddolydd yn y mudiad?** Roedd fy ngwirfoddoli gyda Commodum yn cynnwys helpu gyda'r Clwb Swyddi. Fy rôl i oedd helpu cleientiaid ag anableddau dysgu i wella eu gobaith o gael swydd a'u paratoi ar gyfer amgylchedd byd gwaith.
- **Sut mae gwirfoddoli wedi dy helpu? Beth wyt ti'n ei gael allan ohono?** Mae'r profiad o wirfoddoli mewn rolau gwahanol wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Rwyf wedi bod ar gyrsiau hyfforddiant ac wedi dysgu llawer. Rwyf wedi elwa o wneud rhywbeth defnyddiol a chael fy ngwerthfawrogi. Rwyf yn llawer mwy hyderus erbyn hyn ac wedi datblygu sgiliau defnyddiol fydd yn fy helpu yn fy ngwaith cyflogedig newydd gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda.
- **Beth sy'n dy helpu i ddal ati?** Rwyf yn awyddus i ddweud wrth bobl am sut rydw i wedi elwa o fod yn wirfoddolydd. Fe fyddwn yn bendant yn annog pobl eraill i wirfoddoli. Mae llwyth o gyfleoedd gwahanol ar gael ac mae'n bwysig dod o hyd i gyfle sy'n golygu rhywbeth ichi.
- **Fyddet ti'n argymhell gwirfoddoli i bobl eraill?** Yn bendant! Mae fy ngwirfoddoli wedi fy helpu i ddod o hyd i swydd rwyf yn ei mwynhau. Cychwynnais yn glaf, treuliais amser yn gwirfoddoli, ac erbyn hyn byddaf yn gweithio i gefnogi eraill.



## Safle we newydd Gwirfoddoli Cymru

Os yw'ch mudiad yn defnyddio gwirfoddolwyr neu am recriwtio gwirfoddolwyr, nawr yw'r amser i ddechrau arni! Cofrestrwch ar y cyfeiriad ar wefan newydd Gwirfoddoli Cymru sydd yn disgwyl i fynd yn 'fyw' ym mis Mehefin. Gallwch gofrestru nawr ar y wefan dros dro <https://carmarthenshire.volunteering-wales.net/>

Rydym yn annog mudiadau i bostio cynifer o gyfleoedd â phosib cyn i'r wefan 'fynd yn fyw' cyn hir, fel y bydd yna ddigon o bethau arni i ddenu pobl sy'n chwilio am gyfleoedd i wirfoddoli.

Os oes gennych gyfleoedd ar wefan bresennol Gwirfoddoli Cymru mae angen ail-bostio'r rhain, dros gyfnod o amser. Dechreuwch gyda'r rhai pwysicaf, wrth gwrs. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, cysylltwch â CAVS neu e-bostiwch [fflur.lawlor@cavs.org.uk](mailto:fflur.lawlor@cavs.org.uk)





## Caerfyrddin U3A

Rydyn yn elusen, rhan o sefydliad Cenedlaethol 'Prifysgol y Trydydd Oes' (P3O). Mae'r gair Prifysgol yn cael defnydd gwreiddiol, ystyr bod grŵp o fobl yn hapus yn ei gweithgaredd. Does dim angen cymhwysterau a bydd dim yn cael ei roi. Rydyn yn grŵp cymdeithasol ar gyfer henoed sydd ddim mawn gwaith llawn amser.

Mae'r grŵp yng Nghaerfyrddin wedi ei sefydlu dros ugain mlynedd, mae aelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyfarfodydd misol ar pob dydd Iau olaf o bob mis, gyda tē a coffi am 1.15 y.h. Mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn Clwb Bowlio, Caerfyrddin ger maes parcio San Pedr.

Os rydych am ymuno, a oes modd i chi gysylltu. Pris aelodaeth yw £22. Ein gwefan: [carmarthenu3a.org.uk](http://carmarthenu3a.org.uk)

Y mis yma rydyn wedi sefydlu grŵp Cymraeg newydd yn Yr Atom.



YDYCH CHI

## WEDI YMDDEOL?

Byddech croeso mawr i chi ymuno â ni yn



CAERFYRDDIN U3A

ar gyfer



Cyfarfodydd misol gyda siaradwyr diddorol

**Grwpiau aelodau:** Materion cyfoes - Celf Cerddoriaeth - Ysgrifennu creadigol - Garddio Cerdded - Trafodaethau - Barddoniaeth - Jazz Athroniaeth - I.T.

FFôn iech 01267 223019 neu ymweld [carmarthenu3a.org.uk](http://carmarthenu3a.org.uk)





## Cymorth Canser Macmillan

Ar hyn o bryd rydyn ni'n chwilio am wirfoddolwyr Arweiniol a Chyfeillion gwirfoddol i ymuno â **Chyfeillion Cymorth Sir Gaerfyrddin**, sy'n rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol i bobl y mae canser yn effeithio arnynt.

Mae bod yn Gyfaill gwirfoddol yn golygu treulio 2/3 awr yr wythnos yn rhoi cymorth e.e. cael paned o de a sgwrs, helpu o amgylch y tŷ neu siopa.

Mae gwirfoddolwyr Arweiniol yn helpu staff i gydlynu'r gwasanaeth hwn a chefnogi ein Cyfeillion. Bydd arnoch angen sgiliau da o ran trefnu a chyfathrebu, a'r gallu i wneud gwaith gweinyddol syml, ar-lein os oes modd. Dylech nodi bod angen teithio o amgylch Sir Gaerfyrddin yn rhan o'r rôl hon, a gwirfoddoli am tua 7-14 awr yn ystod yr wythnos waith (dydd Llun i ddydd Gwener).

Mae ein holl wirfoddolwyr yn cael hyfforddiant, arweiniad a chymorth gan staff Macmillan trwy gydol eu rôl. Yn ôl y wirfoddolwraig leol Paula Clarke, "Os gallwch chi sbario ychydig oriau gallwch wneud cymaint o wahaniaeth i fywyd rhywun, ond fe gewch eich synnu gymaint y byddwch chithau hefyd yn elwa."

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Zoe Thomas (Cydlynnydd) ar 07860 950933 neu 01656 86796. Ebost [zoethomas@macmillan.org.uk](mailto:zoethomas@macmillan.org.uk) / [southwalesbuddies@macmillan.org.uk](mailto:southwalesbuddies@macmillan.org.uk) neu ewch i [www.macmillan.org.uk](http://www.macmillan.org.uk) 'Get involved'



## AELODAETH CAVS

### YMUNWCH Â CAVS NAWR!

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS) yw'r cyngor gwirfoddol sirol ar gyfer Sir Gâr. Rydyn ni'n eich gwahodd chi i ddod yn aelod o CAVS am £20 y flwyddyn.

Dyma fydd manteision gwych yr aelodaeth i'ch mudiad chi:

- Hawliau pleidleisio yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol CAVS
- Cyfle i fod yn un o ymddiriedolwyr CAVS
- Gostyngiadau ar hurio ystafelloedd cyfarfod
- Gostyngiadau ar wasanaethau llungopïo
- Gostyngiadau ar gyrsiau hyfforddiant CAVS sydd â ffi
- Gostyngiadau ar system PA sylfaenol
- Gostyngiadau ar hurio teclyn PCC



**CEFNOGWCH NI ER MWYN I NI EICH CEFNOGI CHI!**

**Mae eich aelodaeth yn werthfawr i CAVS oherwydd fe fydd yn ein helpu i:**

- ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol, grwpiau nid-am-elw a mentrau cymdeithasol yn Sir Gâr
- recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer grwpiau yn Sir Gâr
- hybu gwirfoddoli a gwaith y sector gwirfoddol
- ddarparu hyfforddiant, a gweithdai gwybodaeth a rhwydweithio
- gefnogi grwpiau i gael eu cynrychioli yn y gwaith o gynllunio'n strategol yn lleol ac wrth ddod i benderfyniadau.

**I ymaelodi â CAVS:**

- E-bostiwch [admin@cavs.org.uk](mailto:admin@cavs.org.uk) neu ffoniwch 01267 245555 gan ofyn am ffurflen aelodaeth.



## Gwobrau Trydydd Sector Cymru—Gwobr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles



*Cyflwynydd newyddion y BBC, Siân Lloyd, eiriolwr Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin Tim Reilly, aelodau Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin Alan Armstrong, Gina Deane, Simon Rice a Jonathan Levy o Rhwydweithiau Dosbarth yn seremoni Gwobrau Trydydd Sector Cymru*

Mae elusen eiriolaeth, hyfforddiant a chymorth anabledd dysgu, **Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin** wedi'i choroni fel un o'r sefydliadau trydydd sector gorau yn y wlad gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Gwnaeth **Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin**, sefydliad sy'n cael ei redeg ar gyfer oedolion ac ag anableddau dysgu, ennill y wobwr yng nghategori iechyd, gofal cymdeithasol a lles yng Ngwobrau Trydydd Sector Cymru, a gyflwynwyd mewn seremoni a gynhaliwyd gan gyflwynydd newyddion y BBC, Siân Lloyd yng Ngwesty Dewi Sant yng Nghaerdydd ar ddydd Iau, 8fed Chwefror.

"Mae aelodau hefyd wedi datblygu a rhedeg dosbarthiadau bwyta'n iach ac ymarfer corff eu hunain, gan adeiladu ar brofiad bywyd eu hunain i helpu aelodau eraill i dyfu a datblygu," meddai Mal Cansdale o'r cwmni hyfforddi a gwybodaeth Barod CIC.

"Mae'r grŵp yn le diogel i bobl ag anabledd dysgu yn Sir Gaerfyrddin i siarad ag aelodau eraill a staff cyflogedig. Mae'r eiriolwyr cyflogedig yn darparu cefnogaeth hanfodol i aelodau, o gwmpas amrywiaeth eang o faterion cymhleth, gan gynnwys iechyd, tai a budd-daliadau o faterion o ddydd i ddydd i adegau o argyfwng.

"Mae'r grŵp yn cynnig lleoliadau rheolaidd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol mewn hyfforddiant sy'n rhoi cipolwg go iawn i bobl ar ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwranddo ar yr hyn y mae pobl angen. Mae'n rhan bwysig o fywydau cymdeithasol pobl, gan eu helpu i feithrin cyfeillgarwch a chymorth cyfoedion."

Rhannodd **Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin** y wobwr am wobwr iechyd, gofal cymdeithasol a lles - a gefnogir gan Creative Loop - gydag ABMYouth.

Meddai Sarah Phillips, rheolwr elusen **Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin**: "Rydym wrth ein bodd i gael ein hanrhydeddu gan WCVA. "Mae **Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin** yn ymroddedig i roi llais i bobl ag anabledd dysgu, a'r hyder i wneud y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r wobwr hon yn cydnabod ymroddiad a gwaith caled ein haelodau a'n staff."

Dyweddodd Prif Weithredwr WCVA, Ruth Marks: "Mae grwpiau trydydd sector di-ri ar draws Cymru yn gwneud pethau ysbrydoledig bob dydd. Mae Gwobrau Trydydd Sector Cymru yn rhoi eu hamser iddynt yn y sbotolau. Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o gymuned unigolion a sefydliadau sy'n dangos rhagoriaeth ac ymrwymiad o'r fath i weithio i eraill a gwella bywydau pobl Cymru."

Dyweddodd Jonathan Levy, Rheolwr Gyfarwyddwr Rhwydweithiau Dosbarth: "Dyma ein 10fed flwyddyn yn cefnogi Gwobrau Trydydd Sector Cymru. Mae'r sefydliadau sydd ar restr fer ar gyfer pob categori yn ysbrydoledig ac yn haeddu cydnabyddiaeth am y gwaith y maent yn ei wneud wrth gefnogi eu cymunedau lleol. "





## Gwirfoddoli Gwledig

**Lansio Prosiect Gwirfoddoli Gwledig**—Mae prosiect newydd wedi cael ei lansio i recriwtio gwirfoddolwyr a chreu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli yn y Sir Gaerfyrddin wledig.

Nod y Rhaglen Gwirfoddoli Gwledig, sy'n cael ei harwain gan CAVS, yw mynd i'r afael ag ystod o faterion sy'n ymwneud â gwirfoddoli mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys ehangu'r cyfleoedd, darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr a hyrwyddo'r gwerthoedd iechyd a llesiant a'r gwerthoedd cymdeithasol a chymunedol sydd ynghlwm wrth wirfoddoli. Bydd y prosiect hefyd yn darparu ar gyfer cymunedau mwy gwledig drwy ei uned wirfoddoli symudol.

Dyweddodd y Cyngorydd Cefin Campbell, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros gymunedau a materion gwledig, Cyngor Sir Gaerfyrddin: "Mae manteision niferus i wirfoddoli. Gall gwirfoddoli ehangu gorwelion a sgiliau yn ogystal â gwella cyflogadwyedd. Gall gwirfoddolwyr hefyd fod yn ased arbennig i sefydliadau a chwmnïau sy'n eu recriwtio. Mae hwn yn brosiect gwych i helpu ein hardaloedd gwledig ac rydym wrth ein bodd ei gefnogi."

Ardaloedd i'w hymweld â nhw yn ystod y flwyddyn yn cynnwys Hendy-gwyn ar Daf a Sanclêr, Llanybydder, Castellnewydd Emlyn, Llandeilo a Llanymddyfri, y Gwendraeth a Glanamau. Mae amserlen ar gyfer ymweliadau'r prosiect ar gael drwy fynd i [www.cavs.org.uk](http://www.cavs.org.uk).

Mae'r prosiect wedi derbyn cyllid trwy Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020 (RDP), sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



Jamie Horton ag Alud Jones, Gwirfoddoli Gwledig

Dyweddodd Jamie Horton, Swyddog Gwirfoddoli Gwledig: "Rydym yn ceisio cyrraedd cynifer o gymunedau gwledig â phosibl, waeth pa mor anghysbell, gyda'r nod o annog gwirfoddoli a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ledled yr ardal.

"Rydym yn agored i awgrymiadau o ran llefydd i ymweld â nhw ac os hoffai unigolion neu grwpiau i ni ymweld â'u cymunedau, rhowch wybod i ni."

Gall pobl gysylltu drwy e-bostio [admin@cavs.org.uk](mailto:admin@cavs.org.uk) neu drwy ffonio 01267 245555.

[www.gwirfoddolicymru.net](http://www.gwirfoddolicymru.net)



## Rhestr Hyfforddiant CAVS 2018



Mae cost i'r cyrsiau yma:

### MAI

23/05/18

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

10.00—13.00

30/05/18

Lefel 3 Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith

09.15—16.30

### MEHEFIN

14/06/18

Trafod â Llaw

10.00—14.00

18/06/18

Atal Trais yn y Gwaith

09.15—16.30

Er mwyn cael fwy o wybodaeth, cysylltwch â Jackie Dorrian: [jackie.dorrian@cavs.org.uk](mailto:jackie.dorrian@cavs.org.uk) neu: 01267 245555

### MEDI

05/09/18

Lefel 3 Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith

09.15—16.30

12/09/18

Cardiopulmonary Dadebru ac Awtomataidd Diffibrilio Allanol

10.00—14.00

17/09/18

Warden Tân

10.00—14.00

19/09/18

Rheoleiddio Gwarchod Data Cyffredinol (rhai misoedd ymlaen)

10.00—13.00

20/09/18

Ymwybyddiaeth o Gyffuriau ac Alcohol

10.00—14.00

## Bydd adnoddau GDPR newydd ar gael yn fuan gan WCVA

Bydd y [Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol \(GDPR\)](#) sy'n dod i rym ar 25<sup>a</sup> Mai 2018 yn effeithio ar yr holl fudiadau trydydd sector sy'n cadw ac yn prosesu data personol buddiolwyr, rhoddwyr ariannol, staff a gwirfoddolwyr.

Mae WCVA yn creu ystod o adnoddau gwybodaeth cryno newydd a thempledi i gefnogi mudiadau gyda chydymffurfiaeth GDPR.

Mae'r adnoddau yn cynnwys taflen wybodaeth, taflen we a ffilm animeiddiedig fer sy'n dangos y prif newidiadau i gyfraith diogelu data.

Yr ydym hefyd yn falch o fod yn gweithio gyda'r cwmni cyfreithiol, [Hugh James](#), ar ddatblygu cyfres o dempledi cydymffurfio GDPR y gall mudiadau trydydd sector eu haddasu ar gyfer eu hanghenion eu hunain. Bydd y rhain yn cynnwys model diogelu data a pholisïau cadw dogfennau, hysbysiadau preifatrwydd, a rhestrau gwirio ar gyfer archwiliadau diogelu data ac asesiadau effaith ar breifatrwydd.



Cadwch olwg ar gylchlythyr WCVA a'r [wefan](#): [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk) am ddiweddariadau ar ba bryd fydd yr adnoddau ar gael.

A chofiwch edrych ar ein cyfres o [weminarau #Databwrddgwaith](#) sy'n rhad ac am ddim sydd ar gael nawr i'ch helpu i baratoi ar gyfer GDPR.